SGILIAU ALLWEDDOL

# Cyfathrebu Lefel 4

Y sgiliau allweddol yw'r sgiliau sydd eu hangen fwyaf aml i lwyddo mewn amrywiaeth o weithgareddau – yn y gwaith, mewn addysg a hyfforddiant ac mewn bywyd bob dydd. Wrth ddatblygu'r sgil allweddol cyfathrebu, byddwch yn dysgu defnyddio ac addasu eich sgiliau cyfathrebu yn hyderus ac yn effeithiol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd a chyd-destunau.

## Dilyniant

Mae cymwysterau'r sgiliau allweddol wedi'u cynllunio i'ch galluogi i symud ymlaen ar eich cyflymder eich hun. Mae pob lefel o'r sgil allweddol uwchlaw lefel 1 yn ymgorffori'r rhai blaenorol ac yn adeiladu arnyn nhw. Mae cymwysterau'r sgiliau allweddol nid yn unig yn cydnabod eich galluoedd cyfredol, maen nhw hefyd yn gofyn i chi nodi sut y gallwch wella eich sgiliau ymhellach er mwyn cwrdd â gofynion newydd ar lefelau uwch.

Rhan **A**

### MAE ANGEN I CHI WYBOD SUT I

Mae'r adran hon yn dweud wrthych am y technegau a'r wybodaeth sy'n gysylltiedig â phob sgil allweddol. Mae'n dweud wrthych yr hyn sydd angen i chi ei ddysgu a'i ymarfer er mwyn teimlo'n hyderus ynghylch cymhwyso sgiliau cyfathrebu yn eich astudiaethau, yn eich gwaith neu mewn agweddau eraill ar eich bywyd.

Rhan **B**

### MAE'N RHAID I CHI

Mae'r adran hon yn adeiladu ar Ran A ac yn disgrifio cymhwyso sgiliau. Mae'n disgrifio'r sgiliau y mae'n rhaid i chi eu dangos. Bydd eich holl waith ar gyfer yr adran hon yn cael ei asesu. Rhaid i chi gael tystiolaeth y gallwch wneud yr holl bethau a restrir yn y pwyntiau bwled.

***I gyflawni cyfathrebu ar lefel 4, rhaid i chi allu cymhwyso eich sgiliau cyfathrebu i weddu i wahanol bwrpasau. Byddwch yn dangos eich bod yn gallu:***

- datblygu strategaeth ar gyfer defnyddio sgiliau cyfathrebu dros gyfnod estynedig
- monitro cynnydd ac addasu eich strategaeth i gyflawni canlyniadau o'r ansawdd sy'n ofynnol
- gwerthuso eich strategaeth a chyflwyno canlyniadau drwy gyflwyniad ffurfiol.

Rhan A

# MAE ANGEN I CHI WYBOD SUT I:

## *Datblygu strategaeth*

- dewis dulliau ar gyfer sicrhau canlyniadau o'r ansawdd sydd ei angen, gan gynnwys coladu a chofnodi gwybodaeth
- canfod ffynonellau gwybodaeth perthnasol, gan gynnwys pobl a deunydd cyfeiriol ac ymchwilio i'r wybodaeth sydd ei hangen at bwrpas cynllunio
- cynllunio sut y bydd sgiliau cyfathrebu'n cael eu defnyddio dros gyfnod estynedig
- nodi'r canlyniadau rydych yn gobeithio eu sicrhau.

## *Monitro cynnydd*

- gwerthuso gwybodaeth a geir yn sgîl trafodaethau gydag eraill ac o ddeunydd cyfeiriol gan nodi barn, rhagfarn bosibl a gwybodaeth wyrdröedig o bosibl wrth farnu
- cyfuno gwybodaeth drwy adnabod yr amryw ddadleuon a chyflwyno eich dehongliad eich hun mewn dull sy'n dwyn y wybodaeth ynghyd mewn modd cydlynol
- cyfleu gwybodaeth berthnasol am bynciau cymhleth mewn ffurf sy'n addas i'ch pwrpas
  - cymryd rhan arweiniol mewn trafodaethau grŵp, gan strwythuro'n glir yr hyn rydych yn ei ddweud a defnyddio geirfa, goslef a phwyslais priodol wrth wneud eich pwyntiau
  - ysgrifennu dogfennau estynedig, gan strwythuro'r deunydd a chyflwyno dadleuon a gwybodaeth mewn trefn resymegol, a sicrhau bod y sillafu, yr atalnodi a'r ramadeg yn gywir
  - ymateb yn graff i gyfraniadau pobl eraill
- monitro ac ystyried yn feirniadol eich defnydd eich hunan o sgiliau cyfathrebu, gan gynnwys:
  - sicrhau adborth oddi wrth bobl eraill
  - nodi'r dewisiadau a wnaed a barnu pa mor effeithiol oedden nhw
- addasu eich strategaeth er mwyn goresgyn anawsterau a chynhyrchu canlyniadau o'r ansawdd sydd ei angen.

## *Gwerthuso strategaeth a chyflwyno canlyniadau*

- trefnu a chyflwyno gwybodaeth berthnasol yn glir, gan gynnwys eich canlyniadau, gan egluro'r hyn rydych yn ei ddweud trwy wneud cymariaethau, rhoi enghreifftiau sy'n berthnasol i'r gynulleidfa a defnyddio amrywiaeth o ddulliau er mwyn egluro pwyntiau cymhleth
- amrywio'r defnydd o eirfa a mynegiant gramadegol er mwyn cyfleu effeithiau penodol, galluogi pobl i weld mân wahaniaethau, cyfleu pwyslais a chynnal diddordeb eich cynulleidfa
- asesu effeithiolrwydd eich strategaeth, gan nodi'r ffactorau oedd wedi dylanwadu ar y canlyniadau
- nodi ffyrdd o ddatblygu eich sgiliau cyfathrebu ymhellach.

Rhan B

# MAE'N RHAID I CHI:

Gyflwyno tystiolaeth sy'n dangos eich bod yn cwrdd â gofynion C4.1, C4.2 a C4.3 fel rhan o un gweithgaredd.

## C4.1

Datblygu strategaeth ar gyfer defnyddio sgiliau cyfathrebu dros gyfnod estynedig.

*Rhaid i'r dystiolaeth ddangos eich bod yn gallu:*

**4.1.1** **nodi'r canlyniadau rydych yn gobeithio eu sicrhau yn glir**

**4.1.2** **cynllunio eich defnydd o sgiliau cyfathrebu, gan ddethol ar sail ymresymiad y dulliau ar gyfer sicrhau canlyniadau o'r ansawdd sydd ei angen**

**4.1.3** **canfod ffynonellau perthnasol ac ymchwilio i'r wybodaeth.**

## C4.2

Monitro cynnydd ac addasu eich strategaeth yn ôl yr angen er mwyn sicrhau canlyniadau o'r ansawdd sydd ei angen mewn gwaith sy'n cynnwys o leiaf:

- **un** drafodaeth grŵp am bwnc cymhleth
- **un** ddogfen sy'n cynnwys 1,000 o eiriau neu fwy ac sy'n ymwneud â phwnc cymhleth.

**4.2.1** **gwerthuso a chyfuno gwybodaeth o wahanol ffynonellau**

**4.2.2** **cyfleu gwybodaeth berthnasol yn gywir, gan wneud defnydd effeithiol o ffurf, strwythur ac arddull sy'n addas i'ch pwrpas, ac ymateb yn graff i gyfraniadau gan bobl eraill**

**4.2.3** **monitro ac ystyried yn feirniadol eich defnydd o sgiliau cyfathrebu, gan addasu eich strategaeth yn ôl yr angen er mwyn cynhyrchu canlyniadau o'r ansawdd sydd ei angen.**

## C4.3

Gwerthuso eich strategaeth gyfan a chyflwyno canlyniadau eich gwaith, gan ddefnyddio o leiaf **un** cyflwyniad llafar ffurfiol. Rhaid cynnwys amrywiaeth o dechnegau llafar, gweledol a thechnegau eraill i egluro eich pwyntiau.

**4.3.1** **trefnu a chyflwyno gwybodaeth berthnasol yn glir, gan ddarlunio'r hyn rydych yn ei ddweud mewn modd sy'n addas i'ch pwrpas, i'r pwnc ac i'r gynulleidfa**

**4.3.2** **amrywio'r defnydd o eirfa a mynegiant gramadegol er mwyn cyfleu effeithiau penodol, galluogi pobl i weld mân wahaniaethau, cyfleu pwyslais a chynnal diddordeb y gynulleidfa**

**4.3.3** **asesu effeithiolrwydd eich strategaeth, gan gynnwys ffactorau sydd wedi dylanwadu ar y canlyniadau, a nodi ffyrdd o ddatblygu eich sgiliau cyfathrebu ymhellach.**

# ENGHREIFFTIAU AC ARWEINIAD

*Mae'r canlynol yn rhoi arweiniad pellach ac enghreifftiau o'r technegau a'r wybodaeth yn Rhan A.*

**DATBLYGU STRATEGAETH**

Nodi ffynonellau perthnasol o wybodaeth (*e.e. arbenigwyr, cwsmeriaid, cydweithwyr, testunau cyfeirio, adroddiadau, deunydd o'r rhyngrwyd neu'r fewnrwyd, gweledol neu glywedol*).
Cynllunio eich defnydd o sgiliau cyfathrebu (*e.e. nodi dewisiadau, trefn y gwaith, adnoddau a lefel yr arbenigedd angenrheidiol*).
Nodi'r canlyniadau rydych yn gobeithio eu sicrhau (*e.e. gwell cyflwyniad o ganlyniadau ymchwil, defnydd o wybodaeth i fod yn sail i broject, gwasanaeth i gwsmeriaid*).

**MONITRO CYNNYDD**

Gwerthuso gwybodaeth gan gydnabod sut y caiff effeithiau eu cyflawni drwy strwythur ieithyddiaeth a chyflwyniad.
Cyfuno a chyfleu gwybodaeth mewn modd sy'n addas i'ch pwrpas.
Ystyried eich defnydd o sgiliau cyfathrebu gan geisio adborth gan eraill (*e.e. cydweithwyr, goruchwyliwr, rheolydd llinell, tiwtor*).

**GWERTHUSO STRATEGAETH A CHYFLWYNO CANLYNIADAU**

Defnyddio amrywiaeth o sgiliau a thechnegau cyfathrebu i gyflwyno eich canlyniadau mewn modd sy'n gweddu orau i'ch pwrpas a'ch cynulleidfa.
Nodi ffactorau sydd wedi cael effaith ar lwyddiant eich strategaeth (*e.e. sut yr effeithiodd y dewis o iaith ac arddull ar ystyr ymhlyg ac echblyg, nodweddion y gynulleidfa, ffurfioldeb y cyd-destun, lefel yr arbenigedd a hyder*).

Am ragor o enghreifftiau ac arweiniad ynghylch safonau'r sgiliau allweddol edrychwch ar *Arweiniad a Safonau Cymwysterau Sgiliau Allweddol* (cyf. archeb: AC/GM/0577).

## Cymorth â chynhyrchu tystiolaeth

Os ydy cynhyrchu rhai mathau o dystiolaeth yn anodd i chi oherwydd anabledd neu am reswm arall, trafodwch hyn gyda'ch tiwtor neu oruchwyliwr. Efallai y bydd hi'n bosibl i chi gynhyrchu tystiolaeth gan ddefnyddio dulliau eraill. Yn dibynnu ar y sgil a'r lefel, gall y rhain gynnwys defnyddio Braille, meddalwedd a ysgogir gan lais a'r Iaith Arwyddion Brydeinig. Mae arweiniad manwl ar gael yn y ddogfen *Basic and Key Skills: Guidance for candidates with Particular Requirements* a gyhoeddir gan y Cyd-gyngor Cymwysterau. Mae hon ar gael gan eich corff dyfarnu sgiliau allweddol.
Gofynnwch i'ch tiwtor neu oruchwyliwr am arweiniad pellach.

Mae'r safon hon i'w defnyddio mewn rhaglenni yn cychwyn o fis Medi 2004.

AC/GM/0548d

Hawlfraint © Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC) 2004

Gwaherddir atgynhyrchu, storio, addasu neu gyfieithu'r cyhoeddiad hwn, ar unrhyw ffurf, neu drwy unrhyw gyfrwng, heb gael caniatâd ysgrifenedig y cyhoeddwr ymlaen llaw, neu o fewn telerau trwyddedau a roir gan yr Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint. Gellir atgynhyrchu darnau ohono at ddibenion ymchwil, astudio preifat, beirniadaeth neu adolygu, neu gan sefydliadau addysgol at ddibenion addysgol yn unig, heb ganiatâd, cyhyd ag y cydnabyddir hynny'n llawn.

Argraffwyd ym Mhrydain.

Mae'r Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru yn elusen a eithrir o dan Atodlen 2 Deddf Elusennau 1993.

Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru, Adeiladau'r Castell, Stryd Womanby, Caerdydd CF10 1SX

Gellir archebu rhagor o gopïau o'r ddogfen hon drwy gysylltu â:
Cyhoeddiadau ACCAC, Blwch 9B, Thames Ditton, Surrey KT8 OBN
Ffôn: (0870) 242 3206 Gwefan: www.accac.org.uk
Wrth archebu, dyfynnwch y teitl a'r rhif cyfeirnod os gwelwch yn dda.

QCA Qualifications and Curriculum Authority

ACCAC Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru / Qualifications Curriculum & Assessment Authority for Wales

cea Rewarding Learning